YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 22
EBRILL 2009

"Hwyrddydd o Ebrill ydoedd,
Ebrill â'i awel fwyn;
Ac ar y ffordd y defaid
Âi heibio gyda'u hŵyn.

Y defaid a'u hŵyn ai heibio
I fyny am Fwlch y Llyw.
Hwyrddydd o Ebrill ydoedd;
Meddyliais am Oen Duw"

Katherine Tynan Hinkson,
cyf. Cynan

Bellach y mae hi'n fis Ebrill a naws y gwanwyn yn y tir. Gwelir arwyddion o ddeffroad natur ar bob llaw wedi trwmgwsg hir y gaeaf. Erbyn hyn y mae yna gannoedd o ddefaid ac ŵyn yn britho'r caeau ac wrth edrych arnynt yn harddu ein gwlad daw'r penillion uchod i gof.

Y mae'r defaid a'u hŵyn wedi cychwyn eleni eto "i fyny am Fwlch y Llyw" a chyn bo hir byddwn yn dathlu Gŵyl y Pasg. Cofiwn, yn y cyswllt hwn, pa mor daer yr oedd yr Iesu ei Hun i gael bwyta gwledd y Pasg gyda'i ddisgyblion cyn iddo ddioddef (Luc 22:15); a phrif fwyd y wledd fyddai oen wedi'i aberthu yng nghyffiniau'r deml. Y mae'n amlwg felly mai o fewn cyd-destun gwledd y Pasg y cynhaliwyd y Swper Olaf ac i'r Iesu sylweddoli y câi yntau hefyd ei ladd yn y man. Am hynny, yr oedd yn awyddus i'w ddisgyblion weld ei farwolaeth fel gwaredigaeth, yn union fel y waredigaeth o'r Aifft.

Ond er bod y darlun o Oen Duw yn myned i Galfari yn fyw yn ein cof, tybed pa mor arwyddocaol yn ein golwg yw ei ddioddefaint a'i farwolaeth? Mor hawdd yw edrych ar y Groes a theimlo dim. Mor hawdd yw diystyru'r hyn a wnaeth Iesu trosom ar Galfaria, heb ein bod yn sylweddoli pa mor anhraethol fawr oedd yr lawn a dalwyd yno. Dygodd Iesu faich pechod y byd drwy'i ddioddefaint erchyll a bu farw yn ein lle.

Wedi'r Groglith fe ddaw'r Trydydd Dydd â'i fuddugoliaeth – buddugoliaeth yr Oen ar bechod ac angau. Yn neges y Pasg y mae gobaith i bob un ohonom, gobaith yr "atgyfodiad i fywyd tragwyddol." Am bron i ugain canrif bu'r Eglwys yn pregethu efengyl yr Atgyfodiad gan ei chyhoeddi drwy gyfrwng y gair llafar ac ysgrifenedig, yn ei bywyd a'i haddoliad, yn ei hysgrythurau a'i sacramentau ac yn ei chredoau a'i chyffesion ffydd. Er hynny, ni all yr un ohonom haeru bod credu yn yr Atgyfodiad yn beth rhesymol i'w wneud. Cael ein hargyhoeddi yr ydym bob tro. Un o'r disgrifiadau mwyaf grymus o'r argyhoeddi hwnnw yw'r hyn a fynegodd C S Lewis yn ei gyfrol, *"Surprised by Joy."* Ac yntau ar y pryd yn Gymrawd yng Ngholeg Magdalen yn Rhydychen, yr oedd yr ysgolhaig a ddaeth yn ddiweddarach yn amddiffynnydd mawr y Ffydd Gristionogol, yn gwrthod credu. Ond cael ei argyhoeddi fu ei hanes. Meddai, "Deuthum yn ymwybodol o ddynesiad cyson a diwrthdro yr Un yr oeddwn yn taer ddyheu am beidio â'i gyfarfod." Drwy ffydd, boed i ninnau hefyd ddod wyneb yn wyneb â'r Crist atgyfodedig y Pasg hwn.

Pasg hapus a phob bendith.

Judith
Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW
Rhif Ffôn : 01970 820939 E-bost: berwynfa@btinternet.com.

CALENDR MIS EBRILL 2009

Cyhoeddwr y Mis	William Howells Organydd y mis ; Ceris Gruffudd	
5 Ebrill 2.30	Oedfa Gymun: Gweinidog	Bwrdd y Cymun Sue Hughes
9 Ebrill Nos Iau Cablyd 7yh	Oedfa Ddwyieithog yn Eglwys Dewi Sant, Ffordd y Baddon	
10 Ebrill Gwener y Groglith 10.00yb	Oedfa Undebol ym Methel Pregethir gan y Parchedig Andrew Lenny Gorymdaith drwy'r dref yn dilyn yr oedfa.	
12 Ebrill 10.30	Oedfa deuluol Sul y Pasg: Gweinidog.	
19 Ebrill 2.30	Sul y Pasg Bach Oedfa Bregethu: Gweinidog Te i ddilyn yr oedfa	Gofal y te: i'w drefnu
26 Ebrill 10.30	Clwb Sul bach ac oedfa Gweinidog	
3 Mai 2.30yp	Oedfa Gymun: Gweinidog	Bwrdd y Cymun Doreen & Ella

I'CH DYDDIADUR

6 Ebrill: Dydd Llun Cinio Bara Caws Cymorth Cristnogol yn Eglwys y Drindod Sanctaidd
7 Ebrill : Cyfarfod Pwyllgor Os Mêts, Festri'r Garn am 7yh
8 a 22 Ebrill: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys (Horeb yn gyfrifol am weini ar yr 8fed Ebrill)
8 Ebrill: Rihyrsal y Gymanfa : Horeb am 7yh
15 Ebrill : Cyfarfod Cymorth Cristnogol, Canolfan San Paul am 5yh
18 Ebrill: Taith Gerdded Noddedig Milltir Sgwâr Ann Griffiths. Trefnir gan Eglwys Sant Ioan Penrhyn-coch. Gadael am 9.15yb. Am fwy o fanylion cysylltwch â Dwynwen Belsey (820166)
22 Ebrill: Rihyrsal y Gymanfa : Y Morfa am 7yh
28 Ebrill: Nos Fawrth Cwrdd gweddi misol yn festri Horeb 7.30
29 Ebrill : Rihyrsal y Gymanfa Bethel (Talybont) am 7yh
6 Mai : Cyfarfodydd Blynyddol Adran y Chwiorydd (Senana) Cymru, Bethesda Ponthenri : 2.00yp a 5.30yp
6 Mai : Rihyrsal y Gymanfa Bethel (Aberystwyth) am 7yh
Rhaghysbyseb : 5 Gorffennaf 2009 : Byddwn yn cynnal oedfa yng nghapel Salem, Llanbedr lle peintiwyd y llun enwog "Salem" gan Curnow Vosper. Cawn hanes y llun a'r capel yn ystod ein hymweliad.

LLOFFION

Diolch yn fawr i:

- Keith Morris am wneud yr hysbysfwrdd hardd ar wal y festri.
- Janice ac i bawb a gyfrannodd i Swper y Pasg. Cawsom noson hwylus a braf oedd cael cyfle i gymdeithasu yng nghwmni'n gilydd. Rhwng y ddwy eglwys, gwnaed elw (a fydd yn mynd at gartrefi Undeb Bedyddwyr Cymru) o dros £200.

Cyfarfodydd ar gyfer Pobl Ifainc: Fe fydd cyfres o 4 cyfarfodydd yn cychwyn ar nos Lun 20fed Ebrill am 7yh ar gyfer pobl ifainc (rhwng 15-25) sydd am drafod ystyr a phwrpas bod yn Gristion ac o bosib sydd am ddod yn aelod o'r eglwys. Byddwn yn cwrdd ar y cyd gyda'r Morfa a'r Garn. Cysylltwch â Judith os am wybodaeth bellach.